Y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Adroddiad Blynyddol

2018-19

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Adroddiad Blynyddol 2018/19

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2018/19 4
   - 2.1 Nifer y Cyfarfodydd 4
   - 2.2 Y Flaenraglen Waith 4
   - 2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol 5
   - 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 6
   - 2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 6
   - 2.6 Strategaeth Ranbarthol Ddrafft - "Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach" – Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ein Cymunedau 2018-2022 6
   - 2.7 Adroddiad Blynyddol ynghylch Diogelu Oedolion (2016-18) 6
   - 2.8 Polisi Cynllunio'r CDLl o ran anableddau 7
   - 2.9 Y Ddarpariaeth Pryd ar Glud 7
   - 2.10 Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu: Dull rhanbarthol 7
   - 2.11 Polisi Taliadau Uniongyrchol 7
   - 2.12 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 2017/18 7
   - 2.13 Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol - Ar ôl Ymgynghori a'r Camau Nesaf 7
   - 2.14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Diwygiadau Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion am Wasanaethau 8
   - 2.15 Diweddariad ynghylch Gweithio Rhanbarthol a Gweithio mewn Partneriaeth 8
   - 2.16 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl 8
   - 2.17 Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol 8
   - 2.18 Yr Adroddiadau Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt 8
3. Gweithgarwch Craffu Arall 9
   - 3.1 Gorchwyl a Gorffen 9
   - 3.2 Sesiynau Datblygu 9
4. Heriau 10
5. Gwaith yn y Dyfodol 10
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu 10
7. Presenoldeb 11

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer Mai 2018 - Ebrill 2019.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi adroddiad cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2018-2019. Rhoddwyd ystyriaeth i ystod eang o adroddiadau gan gynnwys adroddiadau monitro'r gyllideb, trefniadau sicrhau ansawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

Bu nifer o newidiadau o ran aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Estynnir croeso cynnes i'r holl aelodau newydd a hoffwn ddiolch i holl aelodau'r gorffennol a'r presennol, am eu diwydrwydd a'u hymrwymiad ac am gyfrannu'n weithredol mewn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Rydym ni fel Pwyllgor yn ymdrechu tuag at sicrhau bod y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn parhau i wella ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfarfodydd ar y cyd a gynhaliwyd â Phwyllgorau Craffu eraill lle mae ein portffolios yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfarfod â Phwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a thrafodwyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynllunio Ardal ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol ac Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried gweithio mewn partneriaeth yn eithriadol o bwysig. Mae hyn yn sicrhau bod Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol o safon uchel yn cael eu cynnal ar gyfer dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Rydym ni fel Pwyllgor Craffu wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ac wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ganddynt. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Craffu hefyd wedi derbyn cyflwyniadau llawn gwybodaeth, yn cynnwys Cynllunio'r Gweithlu, Diogelu a Cheir Cefn Gwlad. Roedd yr adroddiadau cynhwysfawr hyn, a oedd yn llawn gwybodaeth, yn galluogi'r Pwyllgor i werthfawrogi gwaith caled ac ymrwymiad ein staff iechyd a gofal cymdeithasol a'n partneriaid ymroddedig.

Rydym yn parhau i drefnu rhag-gyfarfodydd cyn bod y Pwyllgor Craffu yn cwrdd. Gall y cyfarfodydd anffurfiol hyn ychwanegu eglurder drwy roi esboniadau i ymholiadau bach. Gall y rhag-gyfarfodydd hefyd roi cyfarwyddyd wrth baratoi ar gyfer y prif gyfarfod ac felly maent yn ychwanegiad gwerthfawr i'r rôl graffu.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi parhau i ystyried effaith unigrwydd ac arwahanrwydd yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y grŵp trawsbleidiol o chwe Chynghorydd wedi cynnal ymarfer cwmpasu, wedi derbyn sawl cyflwyniad ac wedi trefnu ymweliadau safle cyn paratoi'r adroddiad terfynol. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ymweliad diddorol â menter 'Men's Sheds' yng Nglanyfferi lle mae dynion lleol, sydd â diddordeb mewn gwaith pren, yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae 'Men's Sheds' yn sefydliad cenedlaethol a all helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu hyn ymhellach yn y Sir. Bydd yr adroddiad terfynol a baratowyd gan y Grŵp Gorchwyl a

Gorffen, ynghyd â'r argymhellion a wnaed, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w cymeradwyo.

Bu marwolaeth y Cynghorydd Alun Davies yn dristwch mawr i'w gyd-gynghorwyr ac i ni fel aelodau o'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd Alun yn aelod ffyddlon a chydwybodol iawn gyda diddordeb mawr mewn gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd - roedd yn golled fawr i ni. Yn dilyn hynny, etholwyd y Cynghorydd Karen Davies, gwraig Alun, i gynrychioli Ward Saron a chafodd ei phenodi i'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Hoffwn estyn ein cydymdeimlad i Karen a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd yn y Cyngor.

Hoffwn fynegi fy niolch a gwerthfawrogiad i'r Cynghorydd Ieuan Davies am ei gymorth parhaus fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu a hefyd diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, am gefnogi a mynychu cyfarfodydd ein Pwyllgor yn rheolaidd.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Emma Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, ac i'r holl Swyddogion sydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd Craffu. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyngor arbenigol, eich cefnogaeth a'ch arweiniad yn fawr iawn.

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."*

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod 2018/19. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gwyneth Thomas ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2018/19

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 8 cyfarfod yn ogystal â 2 gyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant a'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ystod blwyddyn y cyngor 2018/19.

2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn llunio ei Flaenraglen Waith ei hun. Roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod yn anffurfiol i nodi, trafod a threfnu'r eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd hyn yn golygu cynnwys eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad, cyllideb a chynlluniau gweithredu. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Flaenraglen Waith, ei datblygu a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agendâu ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:

- Gwasanaethau Cymdeithasol i Bobl Hŷn, gan gynnwys Safonau Maeth
- Oedolion ag Anableddau Dysgu
- Cymorth i Ofalwyr
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Diogelu Oedolion
- Integreiddio'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Dementia

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

Cafodd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Amcanion Llesiant y Cyngor 2018/19 yn ei gyfarfodydd ym mis Medi a mis Ebrill.

Fersiwn Ddrafft o Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2017/18 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017/18, a oedd yn cynnwys trosolwg ar berfformiad 2017/18 ac adroddiadau ynghylch cynnydd pob un o'r 15 amcan llesiant. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am berfformiad data alldro a Chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn yr atodiadau.

Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2019/20-2022 - Ym mis Rhagfyr bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2019/20-2022, a oedd yn manylu ar nodau ac amcanion yr adran ar gyfer 2019-22. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adran ar gyfer y tair blynedd, a gwneud sylwadau yn eu cylch. Rhoddwyd ystyriaeth i'r elfennau canlynol o'r cynllun busnes:

- Gwasanaethau Gofal a Chymorth,
- Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu,

- Gwasanaethau Integredig,
- Gwasanaethau Comisiynu.

Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau - Yn ystod blwyddyn y cyngor, gwneir sawl cais am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno bob chwarter i'r Pwyllgor, sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd ym mis Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr ac Ebrill. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/21-2022 - Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ym mis Tachwedd, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20 i 21/22. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019/20, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/21 a 2021/2022.

2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Mai a mis Tachwedd, a oedd yn rhoi crynodeb o nifer a math y cwynion a'r ganmoliaeth a gafwyd a'r maes gwasanaeth y maent yn gysylltiedig ag ef.

2.6 Strategaeth Ranbarthol Ddrafft - "Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach" – Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ein Cymunedau 2018-2022
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai, a oedd yn rhoi amlinelliad o sut bydd y rhanbarth yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, yn mynd i'r afael â'r rhai sy'n cam-drin, sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y dulliau a'r wybodaeth i weithredu a chynyddu ymwybyddiaeth ynghylch perthnasoedd iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol.

2.7 Adroddiad Blynyddol ynghylch Diogelu Oedolion (2016-18)
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai a roddai wybodaeth am rôl, swyddogaethau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran Diogelu Oedolion. Roedd yr adroddiad yn egluro cyd-destun newidiol y polisi o ran diogelu oedolion ac yn rhoi manylion am drefniadau'r Awdurdod i roi blaenoriaeth i ddiogelu oedolion.

2.8 Polisi Cynllunio'r CDLl o ran anableddau

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r polisi a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, a oedd yn rhoi trosolwg o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, y polisïau cynllunio perthnasol a'r ystyriaethau posibl ar gyfer pobl ag anableddau.

2.9 Y Ddarpariaeth Pryd ar Glud

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r gwasanaeth Pryd ar Glud yn y sir ar ôl i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol dynnu yn ôl o ddarparu'r gwasanaeth. Ym mis Medi, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a ddatblygwyd gan yr Adran Cymunedau ynghylch y newidiadau i'r Gwasanaeth Pryd ar Glud.

Canlyniadau

Penderfynodd y Pwyllgor drefnu seminar i aelodau ynghylch y Strategaeth Atal - cynhaliwyd y seminar ar 22 Tachwedd, 2018.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd gyflwyno adroddiad gwerthuso terfynol ynghylch boddhad cwsmeriaid mewn perthynas â'r trefniadau newydd i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol - cafodd yr adroddiad ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Tachwedd, 2018.

2.10 Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu: Dull rhanbarthol

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a nodwyd uchod a oedd yn rhoi trosolwg ar y gwaith ar y cyd sy'n cael ei wneud yng ngorllewin Cymru mewn perthynas â chynllunio a datblygu'r gweithlu.

2.11 Polisi Taliadau Uniongyrchol

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi Taliadau Uniongyrchol yr Awdurdod sydd wedi'i ddiweddaru yn unol â newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

2.12 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 2017/18

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Craffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.

2.13 Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol - Ar ôl Ymgynghori a'r Camau Nesaf

Ym mis Tachwedd, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn rhoi trosolwg o'r Adroddiad Terfynol ynghylch Ymgynghori-Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

2.14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Diwygiadau Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Codi Tâl ar Oedolion am Wasanaethau

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, a oedd yn nodi'r polisi diwygiedig, ac yn cyfuno'r polisïau blaenorol a'r polisi interim y cytunwyd arno yn 2006.

2.15 Diweddariad ynghylch Gweithio Rhanbarthol a Gweithio mewn Partneriaeth

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r datblygiadau cenedlaethol cysylltiedig gan gynnwys Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Canlyniadau
Penderfynodd y Pwyllgor fod yr Adran Gynllunio'n cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ystyried gofynion tai staff y Bwrdd Iechyd yn y CDLl. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol a bydd y dull i hwyluso cyfnewid rheolaidd rhwng y Bwrdd Iechyd a Chynllunio yn cael ei gwblhau.

Penderfynwyd gwahodd y Groes Goch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'n ei wneud drwy'r Gwasanaeth Cartref a'r Ysbyty [i'w drefnu].

2.16 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill, a oedd yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau presennol sydd ar gael i bobl ifanc â phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu cynlluniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau a chymorth eu cydgysylltu drwy fforwm amlasiantaeth. Gwahoddwyd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i'r sesiwn hon.

Canlyniadau
Penderfynwyd bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r Fforwm Aml-asiantaeth [bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu yn y Sesiwn Datblygu ar 24/09/19].

2.17 Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol a gynhyrchir ar y cyd; cefndir a chyd-destun strategol a deddfwriaethol y gwaith hwn. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion am y gwaith ymgysylltu a oedd wedi ei gomisiynu i gefnogi datblygiad gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol a gynhyrchir ar y cyd.

2.18 Yr Adroddiadau Ychwanegol y Gofynnwyd Amdanynt

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau ynghylch y meysydd canlynol i gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith: -

- Adroddiad gwerthuso terfynol ynghylch boddhad cwsmeriaid mewn perthynas â'r Gwasanaeth Pryd ar Glud newydd [Tachwedd 2018]
- Y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bartneriaeth Ranbarthol. [Cyfarfod ym mis Ionawr 2019]
- Adroddiad ynghylch Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl. [cyfarfod mis Ebrill]
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol. [cyfarfod mis Ebrill]
- Adroddiad ynghylch Unedau Byw ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu [derbynnir yr adroddiad drwy e-bost]
- Adroddiad ynghylch Gofal Canolraddol. [Wedi'i drefnu ar gyfer Sesiwn Datblygu ym mis Medi]
- Adroddiad ynghylch Gofal Parhaus. [Wedi'i drefnu ar gyfer Sesiwn Datblygu ym mis Medi]

3. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Mai 2018, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i nifer o awgrymiadau posibl a chytunwyd i gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen ynghylch Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin. Roedd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd Ken Lloyd
- Y Cynghorydd Louvain Roberts
- Y Cynghorydd Emlyn Schiavone
- Y Cynghorydd Gwyneth Thomas (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Dorian Williams

Gwnaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyfarfod 9 o weithiau rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mai 2019.

3.2 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu canlynol i aelodau yn ystod 2018/19: -

- Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
- Gweithdy gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
- Hyfforddiant Côd Ymddygiad (Cyngor Tref a Chymuned)
- Cynhadledd Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin
- Seminar Digartrefedd
- Seminar Trawsnewid Digidol
- Eiriolaeth Gofalwyr ac Iechyd Meddwl Annibynnol Eiriol

- Seminar - Trawsnewid i Wneud Cynnydd
- Hyfforddiant Mentora
- Seminar - Gosodiadau ar Sail Dewis
- Seminar - Dŵr Cymru
- Seminar - Datblygu Economaidd yn Sir Gaerfyrddin
- Canolfan Craffu Cyhoeddus - Hyfforddiant Craffu i Aelodau a Swyddogion

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

Cafodd y Pwyllgor hefyd y cyflwyniadau canlynol mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn: -

- Cyflwyniad gan Sarah Powell a Karyn Morris ynghylch y gwasanaeth a ddarperir gan Geir Cefn Gwlad.
- Cyflwyniad gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Mrs Bernadine Rees, Mr Steve Moor, Helen Annandale, Bethan Lewis a Lisa Davies) yn rhoi trosolwg ar yr Adroddiad Terfynol ynghylch Ymgynghori - Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol

4. Heriau

Oherwydd nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd, roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oeddent yn gallu craffu'n llawn ar yr adroddiadau. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor craffu yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol pwysig yn ystod y flwyddyn nesaf, gan sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o amser yr aelodau a'r swyddogion. Byddai hyn yn ychwanegu rhagor o werth i gefnogi gwell canlyniadau ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin. Bydd Sesiynau Datblygu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cael eu cynnal bob chwarter i dderbyn cyflwyniadau a diweddariadau ynghylch adroddiadau gwybodaeth.

5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenrhaglen Waith a bydd y Pwyllgor yn blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ystyried sy'n allweddol bwysig ac yn ddylanwadol. Bydd y Flaenrhaglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr, yn rhoi cymorth i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y flwyddyn 2018/19 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 7 cyfarfod rhwng 1 Mai 2018 a 30 Ebrill 2019.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Cyfarfodydd a fynychwyd	%
Y Cynghorydd Sue Allen	7	100%
Y Cynghorydd Kim Broom	7	100%
Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies	7	100%
Y Cynghorydd Karen Davies (penodwyd 12/09/18)	5	100%
Y Cynghorydd Rob Evans	5	71%
Y Cynghorydd Tyssul Evans	7	100%

Y Cynghorydd Amanda Fox (penodwyd 10/04/19)	0[1]	0%
Y Cynghorydd Gary Jones (penodwyd 09/12/18)	1	33%
Y Cynghorydd Jean Lewis	7	100%
Y Cynghorydd Ken Lloyd	7	100%
Y Cynghorydd Andre McPherson (wedi ymddiswyddo 09/12/18)	2	50%
Y Cynghorydd Eryl Morgan (wedi ymddiswyddo 11/03/19)	5	83%
Y Cynghorydd Louvain Roberts	5	71%
Y Cynghorydd Emlyn Schiavone	6	86%
Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	6	86%
Y Cynghorydd Dorian Williams	5	71%

Dirprwyon	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**
Y Cynghorydd J S Phillips (Mai)	1
Y Cynghorydd G J Prosser (Mai)	1
Y Cynghorydd D Price (Gorffennaf)	1
Y Cynghorydd D M Cundy (Tachwedd)	1
Y Cynghorydd A Lenny (Tachwedd)	1
Y Cynghorydd D.E Williams (Ebrill)	1
Y Cynghorydd S. Davies (Ebrill)	1

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**
Y Cynghorydd Jane Tremlett	5
Y Cynghorydd L.D. Evans	1

[1]Methu bod yn bresennol yn sgil ymrwymiadau y cytunwyd arnynt cyn iddi gael ei phenodi i'r Pwyllgor ym mis Ebrill

Dangosir yn y tabl isod y presenoldeb yng Nghyfarfod ar y Cyd y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Cyd-bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 21/05/18	Cyd-bwyllgor Addysg a Phlant 04/07/2018
Y Cynghorydd Sue Allen	1	1
Y Cynghorydd Kim Broom	1	1
Y Cynghorydd Ieuan Davies	1	1
Y Cynghorydd Rob Evans	1	1
Y Cynghorydd Tyssul Evans	1	1
Y Cynghorydd Jean Lewis	1	1
Y Cynghorydd Ken Lloyd	1	1
Y Cynghorydd Andre McPherson	0	1
Y Cynghorydd Eryl Morgan	1	1
Y Cynghorydd Louvain Roberts	1	1
Y Cynghorydd Emlyn Schiavone	1	1
Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	1	0
Y Cynghorydd Dorian Williams	1	1

Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd John Prosser	1
Y Cynghorydd Elwyn Williams	1

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Y Cynghorydd Jane Tremlett	2